CYNGOR SIR CEREDIGION

COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU

Wedi diweddaru: 6 Ebrill 2022

Canllawiau i'r Aelodau

1. Cwblhau'r Gofrestr

- O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Swyddog Monitro sefydlu a chynnal Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau

- Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ymestyn y cyfeiriad at Swyddog Monitro i gynnwys Swyddog Priodol Cyngor Tref/Cymuned.

- Mae paragraff 15 o'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar 21 Ebrill 2016, (a ddaeth i rym ar 20 Mai 2016) yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ac aelodau cyfetholedig Cyngor Sir Ceredigion, a'r Cynghorau Tref/Cymuned yng Ngheredigion i gofrestru unrhyw fuddiannau sy'n dod o dan y categorïau a nodir ym mharagraff 10(2)(a) y Cod Ymddygiad yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau. Gellir gwneud hyn drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r Cyngor Sir; neu yn achos Cyngor Tref/Cymuned i Swyddog Priodol yr awdurdod hwnnw.

- Rhoddwyd Cofrestr unigol fel hon i bob Cynghorydd i'w chwblhau a'i dychwelyd. Mae'r Swyddog Monitro yn cadw'r rhain gyda'i gilydd er mwyn llunio **Cofrestr** statudol **o Fuddiannau'r Aelodau**. Gellir diweddaru pob Cofrestr yn ôl yr angen neu gall yr Aelodau gwblhau ffurflenni ar wahân a'u gosod yn y Gofrestr.

- Gellir gweld pob un o'r categorïau buddiannau a nodir ym mharagraff 10(2)(a) o'r Cod ar dudalennau 5-7.
  Gofynnir i'r Aelodau gofrestru unrhyw fuddiannau sy'n dod o dan y categorïau hyn trwy nodi'r manylion yn y blychau priodol (tudalennau 9-14). Paragraff 10(2)(a)(vi) o'r Cod Ymddygiad, nodi'r ffordd yn ddigon.
  Dylai'r Aelodau nad oes ganddynt y fath fuddiannau nodi 'dim' yn y man priodol.

2. Ar ôl cael eich ethol

- Rhaid cwblhau'r Gofrestr hon a'i dychwelyd i'r Swyddog Monitro **o fewn 28 diwrnod** ar ôl i Cod Ymddygiad eich Awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu **i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd**, os digwydd hynny'n ddiweddarach.

3. Yn ystod eich cyfnod yn y swydd

- Hysbysu'r Swyddog Monitro ynglŷn ag unrhyw fuddiannau newydd
  Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a nodir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant newydd hwnnw yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau eich

awdurdod drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro'r Cyngor Sir.

- Hysbysu'r Swyddog Monitro neu'r Swyddog Priodol ynglŷn ag unrhyw newidiadau.

  Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu newid i unrhyw fuddiant personol sydd eisoes wedi'i gofrestru, gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, Swyddog Priodol eich awdurdod. Rhaid cwblhau adroddiad blynyddol (pob mis Ebrill)

- Hysbysu'r Swyddog Monitro ynglŷn â buddiant personol yn unol â Pharagraff 11 am y tro cyntaf.

  Rhaid i chi, wrth ddatgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau eich awdurdod drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos Cyngor Tref/Cymuned, Swyddog Priodol eich awdurdod.

- Hysbysu'r Swyddog Monitro ynglŷn ag unrhyw fuddiannau a ddatgelir yn ystod cyfarfodydd

  Pan fyddwch yn datgelu buddiant ar lafar yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod, mae'n rhaid i chi, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl y cyfarfod, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, drwy gwblhau'r ffurflen briodol a fydd ar gael yn ystod y cyfarfodydd.

  Er bod rhaid datgan buddiant bob tro y bydd yn codi, nid oes ond angen i chi roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro (neu'r Swyddog Priodol) *unwaith*.

Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol bod Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir gyhoeddi Cofrestr Buddiannau'r Aelodau.

Mae'r Gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar bob adeg resymol yn y man canlynol:

Gwasanaethau Democrataidd,
Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion.
SA46 0PA
Mae Cofrestrau Unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor

Mae'r Gofrestr hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Eich-Cyngor/Cynghorwyr-a-Phwyllgorau/Cynghorwyr/Pages/default.aspx
(Cliciwch ar y Cynghorwr ac yna ar 'lawrlwythwyd')

https://www.ceredigion.gov.uk/English/Your-Council/Councillors-Committees/Councillors/Pages/default.aspx
(Click on the Councillor and then on 'downloads')

Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â'r canlynol:

Y Swyddog Monitro – Elin Prysor.

Neuadd Cyngor Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion.
SA46 0PA
01545 572120
elin.prysor@ceredigion.gov.uk

SwyddogMonitro@ceredigion.llyw.cymru / MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk

Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r cyfeiriad canlynol:-

moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru /

ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk

Paragraffau perthnasol y Cod Ymddygiad

Paragraff 10(2)(a)

Para.	Math o fuddiant personol
10(2)(a)	*os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -* (i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg; (ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl; (iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod; (iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw; (v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod; (vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod; (vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno; (viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno; (ix) unrhyw — (aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus; (bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol; (cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion; (chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu (dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod,

	yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi (x)unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

Paragraff 11

Para.	1) Math o fuddiant personol
11	(1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg. (2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud — (a)) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu (b)) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad. (3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant. (4) Rhaid i chi, wrth ddatgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau eich awdurdod drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, Swyddog Priodol eich awdurdod. (a)manylion am y buddiant personol; (b)manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac (c) eich llofnod. (5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli

	gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif. (6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes. (7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r cod hwn.

CYNGOR SIR CEREDIGION

COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU

Yr wyf i, [nodwch eich enw]

……David Raymond Evans……..,

Aelod o Gyngor Sir Ceredigion, yn hysbysu fy mod wedi nodi isod

y buddiannau y mae angen i mi eu cofrestru o dan baragraff 15 o'r Cod

Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar 21 Ebrill 2016, ac a ddaeth i

rym ar 20 Mai 2016, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd).

Paragraff 10(2)(a)(i) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg:

Rwyf ar hyn o bryd yn cael fy nghyflogi gel gyrrwr dosbarthu rhan amser i Fferyllfa Lloyds.

Paragraff 10(2)(a)(ii) y Cod Ymddygiad

Manylion:

- **Unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi**
- **Unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi**
- **Unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl**

Fferyllfa Lloyds

R & E Housing

L & R Building Contractors Ltd

Paragraff 10(2)(a)(iii) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw berson, ac eithrio Cyngor Sir Ceredigion, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod:

Amherthnasol

Paragraff 10(2)(a)(iv) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal Cyngor Sir Ceredigion, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw:

Amherthnasol

Paragraff 10(2)(a)(v) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed

- **rhyngoch chi,**
- **rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu**
- **rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu**
- **gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal Cyngor Sir Ceredigion, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw yn denant arno**

a Chyngor Sir Ceredigion

Amherthnasol

Paragraff 10(2)(a)(vi) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw eiddo a thir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal Cyngor Sir Ceredigion (gan gynnwys eich prif breswylfa ac unrhyw eiddo arall) (nid oes angen prif gyfeiriad yn llawn - bydd nodi'r ffordd yn ddigon):

Amherthnasol

Paragraff 10(2)(a)(vii) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw dir y mae Cyngor Sir Ceredigion yn landlord arno ac y mae

- **ffyrm yr ydych yn bartner ynddi,**
- **cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu**
- **gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal Cyngor Sir Ceredigion, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw**

yn denant arno

Amherthnasol

Paragraff 10(2)(a)(viii) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan Gyngor Sir Ceredigion i fod arno:

Amherthnasol

Paragraff 10(2)(a)(ix) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw -

- **awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;**
- **cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;**
- **corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion**
- **undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu**
- **clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal Cyngor Sir Ceredigion,**

yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi:

Llywydd Clwb Rygbi Aberystwyth

Paragraff 10(2)(a)(x) y Cod Ymddygiad

Manylion unrhyw dir yn ardal Cyngor Sir Ceredigion y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy

Amherthnasol

Yr wyf yn datgan, drwy hyn, fod y wybodaeth a roddwyd uchod yn gywir.

Llofnod: ……DREvans……..

Dyddiad: ……31/07/2023……..

Yr wyf yn cydnabod, drwy hyn, imi dderbyn y wybodaeth uchod

Llofnod: ……

Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro Cyngor Sir Ceredigion)

Dyddiad: ……22/09/2023……..